

Rhagarweiniad

1. Aelodaeth

- 1.1 Darperir ar gyfer aelodaeth y Senedd dan gymal 30 o'r Cyfansoddiad.
- 1.2 Mae'r is-ddeddf hon yn diffinio etholiad, detholiad ac aelodaeth y Senedd.

Ethol Cynrychiolwyr

2. Cynrychiolwyr Myfyrwyr

- 2.1 Bydd y Senedd yn cynnwys y cynrychiolwyr myfyrwyr canlynol:
 - a. Swyddogion Llawn-amser
 - b. Swyddogion Gwirfoddol (gan gynnwys Swyddogion Cyfadrannau)
 - c. 2 rôl i gynrychioli Pwyllgor Gwaith UMCA
 - ch. 5 rôl i gynrychioli Clybiau Chwaraeon cysylltiedig
 - d. 5 rôl i gynrychioli Cymdeithasau cysylltiedig

Cyffredinol

3. Terfynu aelodaeth o'r Senedd

- 3.1 Bydd cynrychiolydd myfyrwyr yn peidio â bod yn Aelod o'r Senedd os yw:
 - a. Yn ymddiswyddo fel cynrychiolydd;
 - b. Yn cael ei ddad-ddethol fel cynrychiolydd gan y mudiad â'i dewisodd i fod yn gynrychiolydd;
 - c. Yn peidio â bod yn aelod o'r mudiad â'i dewisodd i fod yn gynrychiolydd;
 - ch. Yn peidio â bod yn Aelod o UMABer.
- 3.2 Bydd unigolyn yn peidio â bod yn Aelod o'r Senedd ar ddiwrnod olaf y flwyddyn academaidd y detholwyd neu yr etholwyd hwy i wasanaethu.

4. Cyfyngiadau ar ddetholiad ac etholiad

- 4.1 Ni chaiff unrhyw un ei ddethol na'i ethol yn aelod o'r Senedd os yw'n weithiwr llawn-amser yn UMABer (ac eithrio Swyddog Ymddiriedolwr), neu
- 4.2 Lle mae rhywun sydd eisoes yn aelod o'r Senedd yn cael ei ethol neu ei ddethol i unrhyw rôl arall a fyddai'n ei wneud yn gymwys i fod yn aelod o'r Senedd, caiff yr etholiad neu'r detholiad i'r ail rôl ei diystyru at ddibenion pleidleisio.
- 4.3 Mewn achos lle caiff unigolyn sy'n Aelod o'r Senedd ei benodi i swydd lawn-amser yn UMABer (ac eithrio yn rhinwedd cael ei ethol yn Swyddog Ymddiriedolwr) bydd yn peidio â bod yn Aelod o'r Senedd.
- 4.4 Yn yr adran hon, golyga cyfeiriad at rôl unrhyw rôl o fewn UMABer neu dan reolaeth UMABer; mae'n cynnwys swyddogion, ond nid yw'n cynnwys rôl sy'n ddibynnol ar gytundeb cyflogaeth.

5. Dehongliad

- 5.1 Yn yr Atodlen hon:

"Aelod o UMABer" fydd yr ystyr a roddir i "Aelod" dan gymal 16 o'r Cyfansoddiad, Golyga "Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol" gyfarfod cyffredinol blynyddol UMABer, a gynhelir yn unol â chymal 28 o'r Cyfansoddiad, Ystyr "Aelod o'r Senedd" yw un o aelodau'r Senedd,